

## Tom Lowther (14 oed)

## Cyfranogwr - YPSU

**1. Allwch chi ddweud ychydig wrthym amdanoch chi'ch hun a sut oedd bywyd cyn i chi ymwneud â'r Ffwrnes?**

Ro’n i yn y tŷ bob dydd a do’n i ddim yn mynd i'r ysgol llawer chwaith a do’n i ddim yn gwneud llawer o gwbl cyn dod ‘ma

**2. Sut wnaethoch chi ymwneud â'r Ffwrnes Fach? Beth oeddech chi'n gobeithio fyddai'n digwydd o ganlyniad i ymwneud?**

Roedd e trwy'r ysgol. Daeth fy ffrind ‘ma a do’n i ddim eishe dod ar fy mhen fy hunan, felly meddyliais y byddai'n cŵl rhoi cynnig arno, roeddwn yn nabod rhywun ‘ma felly helpodd hynny'n fawr.

**3. O ganlyniad i gyfranogi, beth ydych chi'n meddwl sydd wedi bod y newid mwyaf arwyddocaol i chi'n bersonol?**

Dw i’n gwneud llawer mwy nawr a hyd yn oed y tu allan i PSU. Mae wedi rhoi cymhelliant i fi wneud mwy nag o’n i. Dw i'n meddwl ei fod wedi helpu fy hyder; dw i wedi cwrdd â ffrindiau newydd. Rwy'n gwirfoddoli nawr hefyd, sydd wedi bod yn wych.

**4. Beth achosodd y newid hwn?**

Ro’n i’n arfer treulio pob dydd yn y gwely ond nawr os oes gen i ddiwrnod o wneud dim byd, dw i'n diflasu'n hawdd, felly dw i'n meddwl mai dim ond gwneud pethau sydd wedi fy helpu i wneud mwy trwy gydol y dyddiau. Dw i'n hoffi bod yn brysur nawr a chael pethau i'w gwneud. Mae'n braf gallu gweithio gyda phobl hŷn yn ogystal â'r grwpiau iau gan fy mod wedi bod yn gwirfoddoli gyda'r grŵp dementia sydd wedi bod yn cŵl.

**5. Pe baech yn dweud wrth bobl eraill am People Speak Up, beth fyddech chi'n ei ddweud**?

Mae'n wirioneddol gŵl, mae'n llawer o hwyl, dylen nhw’n bendant ddod, rwy'n ceisio cael fy ffrindiau i ddod pan dyw nhw ddim yn brysur

**6. Pa deitl fyddech chi'n ei roi i'ch stori?**

Dim byd i rywbeth!